# Gwasanaethau Cymdeithasol

## Rôl Y Tîm Dirprwyaeth



Mai 2023

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# RÔL Y TÎM DIRPRWYAETH - PAMFFLED GWYBODAETH

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| YN YMWNEUD Â'R: | Tîm Dirprwyaeth |
| RHIF CYFEIRNOD | LL05 |
| ADRAN | Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion |
| AWDUR | Sally Swarbrick |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF | Mai 2023 |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF | Mai 2025 |

## Cynnwys

RÔL Y TÎM DIRPRWYAETH .......... 4
DIFFINIAD O ROLAU .......... 4
Penodeiaeth .......... 4
Dirprwyaeth .......... 6
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL .......... 7
CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU .......... 8

## RÔL Y TÎM DIRPRWYAETH

Mae'r Tîm yn darparu cymorth arbenigol i bobl ddiamddiffyn a ystyrir nad ydynt yn gallu rheoli eu harian eu hunain yn feddyliol neu'n gorfforol.

Gellir darparu'r gefnogaeth i bobl sy'n byw:

- yn eu cartrefi eu hunain
- mewn lleoliadau tai gyda chefnogaeth
- mewn cartrefi preswyl a nyrsio
- mewn prosiectau byw yn y gymuned

Rhaid i'r holl bobl sy'n cael eu cyfeirio fod yn derbyn gwasanaethau trwy Bortffolio Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.

## DIFFINIAD O ROLAU

### Penodeiaeth

Rôl Penodai fel y'i diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yw:

- Gwneud cais a derbyn buddion nawdd cymdeithasol, pensiynau a lwfansau a Chredydau Treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Rhaid i unrhyw arian sy'n cael ei dderbyn gan y Penodai gael ei ddefnyddio er eu lles gorau eu hunain neu eu dibynnydd, megis talu am ffioedd nyrsio neu gartref gofal neu ffioedd ofal cartref a chwrdd â chostau byw arferol.

**Nid yw'r rôl hon yn darparu unrhyw awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran yr unigolyn.**

Mewn achosion lle mae unigolyn yn byw mewn adeilad wedi ei rentu, mae'n bosib i'r Tîm Budd-daliadau sicrhau fod y rhent yn cael ei dalu ar eu rhan.

**Fodd bynnag, nid yw Penodeiaeth yn rhoi'r awdurdod i arwyddo cytundebau tenantiaeth.**

Dylid gwneud cais am Benodeiaeth os:

- yw'r unigolyn dros 18 mlwydd oed
- nad oes gan yr unigolyn y gallu i reoli eu harian
- nad oes eraill arwyddocaol i gynorthwyo
- nad oes ganddynt unrhyw gynilion neu incwm arall megis pensiwn galwedigaethol
- nad ydynt yn berchen ar eiddo

Nodwch os gwelwch yn dda mai'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n penderfynu pwy yw'r unigolyn mwyaf addas i weithredu fel Penodai.

Yn dilyn cymeradwyaeth i weithredu fel Penodai Corfforaethol, mae'r aelod tîm yn dod yn gyfrifol am unrhyw gerbyd sy'n cael ei gyhoeddi drwy'r Cynllun Motability gan fod hwn yn gysylltiedig ag Elfen Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl. (Cyfeiriwch at y ddogfen ar wahân sy'n ymwneud â'r broses Archebu Cerbyd Motability).

**NODER – NI ALL PENODAI:**

- Arwyddo Cytundeb Tenantiaeth
- Agor cyfrif banc personol ar ran cleient
- Gau cyfrif banc personol ar ran cleient
- Gysylltu gyda banc ar ran cleient
- Newid neu sefydlu Rheolau Sefydlog neu Ddebyd Uniongyrchol sy'n ymwneud â chyfrif personol cleient
- Fod yn gyfrifol am ddyledion sy'n dyddio cyn y Penodeiaeth
- Werthu eiddo
- Gwblhau dogfennaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gofyn am gyflwr neu allu corfforol neu feddyliol cleient
- Fynychu apeliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau heb gwmni Gweithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Adolygu.
- Ddewis Cerbyd Motability

## Dirprwyaeth

Gwneid ceisiadau am Orchmynion Llys Gwarchod drwy'r Llys Gwarchod sy'n swyddfa Y Goruchaf Lys gydag awdurdodaeth yng Nghymru a Lloegr.

> Gwneid cais am Orchymyn sy'n enwi Prif Swyddog y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fel y Dirprwy dros Eiddo a Materion penodedig os:
> - nad oes gan yr unigolyn y gallu i reoli eu heiddo a'u harian
> - yw'r unigolyn dros 18 mlwydd oed
> - oes ganddynt gynilion neu incwm yn ychwanegol i'w budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau.
> - nad oes eraill arwyddocaol i gynorthwyo

Mae'r Gorchymyn Llys yn rhoi'r awdurdod i'r Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol wneud penderfyniadau nad ydynt yn gallu eu gwneud eu hunain oherwydd eu hanalluogrwydd meddyliol ar ran yr unigolyn. Gallai hyn gynnwys:

- Derbyn unrhyw incwm a rheoli cyfrifon banc,
- Gwerthu eiddo,
- Llunio cytundebau tenantiaeth,
- Gwaredu arian a chreu anrhegion.
- Mae gan y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod i arwyddo unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag eiddo a materion yr unigolyn.

Er mwyn gwneud cais am Ddirprwyaeth, mae'n hanfodol fod ffurflen COP3 Asesiad o Gymhwyster a COP14 PA DEP, yn cael eu cwblhau gan Weithiwr Cymdeithasol fel arfer. Bydd y ffurflenni sy'n weddill, COP1 a COP1a yn cael eu cwblhau gan aelod o'r tîm gyda gwybodaeth gefnogol gan y Gweithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Adolygu.

Bydd ffi o £371 yn daladwy i'r Llys wrth wneud cais. Mae costau blynyddol yn berthnasol wedyn yn ddibynnol ar incwm ac arbedion. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i newid gan y Llys.

**Mwy o wybodaeth**

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Dirprwyaeth ar 01352 702520.**

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

| | |
|---|---|
| **Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint** | |
| 08444 772020 | www.flintshirecab.org.uk <http://www.flintshirecab.org.uk> |
| **Gofal a Thrwsio Sir y Fflint**<br>Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed. | |
| 01352 758700 | www.flintshirecr.co.uk |
| **Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru** | |
| 08450 549969 | www.acnew.org.uk |
| **Llinell Gymorth Mencap Cymru** | |
| 0808 808 1111 | https://wales.mencap.org.uk/cy |
| **MIND** | |
| 01352 757637 | https://www.newmind.org.uk/ |
| **Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)** | |
| 01352 752525 | www.carers.org/local/wales/flintshire |
| **Fforwm Anabledd Sir y Fflint** | |
| 01352 755546 | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Cyswllt Cyntaf, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF | |
| 01352 702000 | SSDUTY@flintshire.gov.uk<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Social-Services-Information-Leaflets-Welsh.aspx |

## CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion rydym yn ymwybodol y gallai fod yna adegau pan fo angen i chi wneud cwyn. Gellir gwneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu fe allwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint, CH7 6NN 01352 702623

Mae taflen 'Eich hawl i ganmol a chwyno' sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein yma: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Social-Services-Information-Leaflets-Welsh.aspx

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein yma:

https://www.dewis.cymru/

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 01352 702000 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Cysylltwch â 01352 702000 i dderbyn fersiwn Saesneg.

**Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras ar gais drwy ffonio 01352 702000.**